PWYLLGOR CYNLLUNIO
21 Mehefin 2023

EITEM YCHWANEGOL

ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO, DIOGELU'R CYHOEDD A GWASANAETH CEFN GWLAD

FFERM WYNT MONA - PROSIECT ISADEILEDD SYLWEDDOL CENEDLAETHOL

YMATEB I'R YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO STATUDOL

1. PWRPAS YR ADRODDIAD:

1.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cael gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol ynghylch fferm wynt ar y môr arfaethedig, Mona.

1.2 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 19 Ebrill 2023 tan 4 Mehefin 2023. Mae'r swyddogion wedi cytuno i gyflwyno ymateb ffurfiol y Cyngor yn hwyrach oherwydd rhaglen y Pwyllgor.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth Aelodau i gyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad cyn ymgeisio ar ran y Cyngor.

2. CEFNDIR

2.1 Mae Fferm Wynt Mona yn brosiect isadeiledd sylweddol cenedlaethol.

2.2 Dan Ddeddf Cynllunio 2008, cyflwynir caniatâd am Brosiectau Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol drwy Orchymyn Caniatâd Datblygu (offeryn statudol) yn hytrach na chaniatâd cynllunio.

2.3 Cyflwynir ceisiadau am Orchmynion Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio i gael eu hasesu, a bydd Ysgrifennydd Gwladol perthnasol y DU yn gwneud penderfyniad yn eu cylch.

2.4 Cyn cyflwyno cais i'r Arolygiaeth Gynllunio, rhaid i'r datblygwr gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ffurfiol gyda'r cyrff statudol a'r gymuned leol.

2.5 Mae awdurdodau lleol yn ymgyngoreion statudol.

2.6 Unwaith y bydd cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu wedi cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio, bydd awdurdodau lleol ac ymgyngoreion eraill a effeithir yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ar y cais.

3. CYNNIG FFERM WYNT AR Y MÔR MONA:

3.1 Mae Mona Offshore Wind Limited (yr ymgeisydd) yn dymuno datblygu Prosiect Fferm Wynt ar y Môr Mona ym mhen dwyreiniol Môr Iwerddon. (Gwelwch Ffigur 1.1 – Lleoliad Prosiect Fferm Wynt ar y Môr Mona)

3.2 Gan fod Prosiect Fferm Wynt ar y Môr Mona yn orsaf gyffredinol ar y môr gyda'r gallu i gynhyrchu dros 350MW, mae'r prosiect yn Brosiect Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol yn unol â'r diffiniad yn Neddf Cynllunio 2008.

3.3 Bydd y gwaith cysylltiedig ar y tir, yn cynnwys cebl foltedd uchel tanddaearol ac is-orsaf newydd, yn rhan o'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu.

3.4 **Cynghorir yr Aelodau bod y gwaith ar y tir yn cynnwys dod â'r cebl i'r tir yng Nghonwy, gosod ceblau dan ddaear drwy Gonwy ac i Sir Ddinbych a chodi is-orsaf newydd yn Sir Ddinbych.**

3.5 Lleoliad 'y safle lle mae'r cebl yn cyrraedd y tir' yw'r pwynt lle mae'r cebl trydan yn cyrraedd y tir. Bydd y cebl yn cyrraedd y tir ym Mhensarn, Conwy.

3.6 Cynigir codi is-orsaf newydd ar y tir i'r de o Ffordd Glascoed, a darperir dau ddewis. Mae dewis 2 ar dir amaethyddol i'r de o Barc Busnes Llanelwy ac mae dewis 7 ar dir amaethyddol tua'r dwyrain am Lanelwy (gwelwch ffigur 2 – dewisiadau ar gyfer yr is-orsaf)

3.7 Cynigir gosod cebl tanddaearol foltedd uchel o'r pwynt y mae'n cyrraedd y tir i un o'r is-orsafoedd.

3.8 Cynigir gosod cebl tanddaearol arall a gwneud gwaith cysylltiedig pellach er mwyn cysylltu'r is-orsaf newydd gyda'r is-orsaf Grid Cenedlaethol presennol ym Modelwyddan, sydd wedi'i leoli i'r de o Ffordd Glascoed.

3.9 Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys datblygiadau ategol, megis cyfansoddion adeiladu, ardaloedd storio, ffyrdd a mynediad newydd i gerbydau ar y safle lle mae'r cebl yn cyrraedd y tir, ar hyd coridor y cebl ac ar safle'r is-orsaf.

3.10 Yn ogystal â'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, byddai'r gwaith ar y môr yn ymofyn trwydded forol a byddai cais ar wahân yn cael ei chyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru am drwydded forol.

4. YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO STATUDOL:

4.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol.

Y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft

4.2 Y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft yw'r offeryn statudol sy'n darparu'r pwerau sydd eu hangen i ymgymryd â'r datblygiad arfaethedig. Mae'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu'n diffinio maint y datblygiad ac yn nodi'r gwaith sydd ei angen er mwyn adeiladu a gweithredu'r fferm wynt ar y môr.

4.3 Yn ogystal â chaniatâd i ddatblygu a gweithredu fferm wynt ar y môr, mae'r datblygwr hefyd yn ceisio cynnwys pwerau eilaidd yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer 'datblygiadau cysylltiedig'.

4.4 Golyga hynny y byddai'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn darparu'r pwerau sydd eu hangen i'r datblygwr adeiladu a gweithredu fferm wynt, ac na fyddai'n rhaid iddynt gael caniatâd eilaidd gan reoleiddwyr eraill, megis yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yr Awdurdod Priffyrdd Lleol, yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Dŵr Cymru.

4.5 Mae'r pwerau eilaidd a geisir yn ymwneud â gwaith stryd, pwerau atodol, caffaeliadau hanfodol a phwerau amrywiol eraill.

4.6 Byddai'r pwerau gwaith stryd a geisir yn caniatáu i'r datblygwr weithio ar neu o dan strydoedd i ganiatáu iddynt osod ceblau ar y tir. Ceisir pwerau hefyd i ganiatáu i'r datblygiad greu cyffyrdd i strydoedd i sicrhau mynediad at ardaloedd adeiladu, a chreu mynediad parhaol newydd i'r is-orsaf arfaethedig.

4.7 Byddai'r pwerau gwaith stryd eraill a geisir yn cynnwys cau neu gyfyngu'r defnydd o strydoedd, gan gynnwys cau a gwyro hawliau tramwy cyhoeddus dros dro.

4.8 Mae'r pwerau atodol a geisir yn cynnwys caniatáu i'r datblygwr gysylltu i ddraeniau, carthffosydd neu gyrsiau dŵr i ryddhau dŵr.

4.9 Byddai'r pwerau caffaeliadau hanfodol yn caniatáu i'r datblygwr feddiannu'r tir sydd ei angen ar gyfer datblygiad y fferm wynt ar y môr. Byddai pwerau meddiannu dros dro hefyd yn caniatáu i'r datblygwr ddefnyddio'r tir sydd ei angen arnynt dros gyfnod y gwaith adeiladu ond nid ar gyfer gweithredu'r fferm wynt yn barhaol. Mae'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu'n cynnwys dull sy'n caniatáu iawndal am arfer pwerau meddiannu dros dro a chaffaeliadau hanfodol.

4.10 Mae'r pwerau amrywiol arfaethedig yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu torri a thocio coed a gwaredu gwrychoedd heb fod angen caniatâd ychwanegol, gan gynnwys coed sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed.

4.11 Bydd y Gorchymyn Caniatâd Datblygu hefyd yn cynnwys cyfres o 'Ofynion Cynllunio' a fydd yn gweithredu yn yr un modd ag amodau cynllunio. Byddai'r awdurdod cynllunio lleol yn gyfrifol am gymeradwyaeth yn dilyn cydsyniad o fanylion sy'n destun gofynion a gorfodaeth cynllunio.

Yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol:

4.12 Cyflwynir yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol ar ffurf Datganiad Amgylcheddol drafft, ac mae'n nodi canfyddiadau'r holl asesiadau ac arolygon a gwblhawyd hyd yma, ac yn amlinellu effeithiau tebygol y gwaith ar y môr ac ar y tir ar ystod o ystyriaethau pwysig.

4.13 Ni ystyrir bod y gwaith ar y môr, sy'n cynnwys gosod tyrbinau, yn cael unrhyw effaith sylweddol ar Sir Ddinbych. Oherwydd hynny, mae'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad adran 42 yn canolbwyntio ar y gwaith arfaethedig ar y tir.

4.14 Mae'r prif elfennau perthnasol yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol wedi'u harchwilio fel rhan o'r ymgynghoriad. Ceir sylwadau ar yr elfennau perthnasol hyn yn yr ymateb drafft yn ATODIAD 1.

4.15 Dylid nod y gall y Cyngor gadw ei hawl i ddarparu mewnbwn pellach ar bob elfen o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu a'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol pan gyflwynir y cais ffurfiol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

5. PENDERFYNIAD:

5.1 Ceisir caniatâd gan Aelodau i gyflwyno'r sylwadau a amlinellir yn ATODIAD 1 fel ymateb ffurfiol y Cyngor i ymgynghoriad cyn ymgeisio statudol y datblygwr ynghylch fferm wynt arfaethedig Mona. Bydd copi o gofnodion y cyfarfod ac unrhyw sylw y mae'r Aelodau'n dymuno eu gwneud ar y datblygiad yn cael eu cynnwys hefyd.

EMLYN JONES, PENNAETH CYNLLUNIO, GWARCHOD Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CEFN GWLAD

Atodiadau:

ATODIAD 1 – ymateb drafft adran 42 CSDd

Ffigur 1.1 – Lleoliad Prosiect Fferm Wynt ar y Môr Mona

Ffigur 2 – Dewisiadau ar gyfer yr Is-orsaf